CYPE(5)-06-17 – Papur | Paper 6 - i'w nodi | to note

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/ARD/0038/17

Lynne Neagle
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales

6 Chwefror 2017

Annwyl Lynne,

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y pwyllgor am y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a fynychais ar 12 Ionawr, cynigiais roi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor, gan gynnwys diweddariad am amseriad y canllawiau arfaethedig ar anghenion gofal iechyd dysgwyr a gwybodaeth am ddatblygu cynlluniau datblygu unigol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft yn 2015, rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith ar y Bil yn ogystal â'r cod drafft. Mae grŵp o arenigwyr ac ymarferwyr wedi'i sefydlu i ddatblygu cynnwys y cod, sy'n cynnwys partneriaid cyflawni allweddol a chynrychiolwyr y trydydd sector. Mae'r grŵp wedi gweithio'n galed i lunio'r disgrifiad o'r Cynlluniadu Datblygu Unigol a'u cynnwys ac mae wedi cynorthwyo gyda'r broses o gynhyrchu templed safonol.

Mae ymarferwyr, fel rhan o'r grŵp, wedi darparu enghreifftiau dienw o Gynlluniau Datblygu Unigol sy'n cael eu defnyddio o fewn y fframwaith statudol presennol. Canlyniad y gwaith hwn yw'r drafft gweithio diweddaraf o'r cod, a fydd yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor y mis hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r syniadau cyfredol gorau a'r gwaith ar y Cynlluniau Gweithredu Unigol ac mae'n well ei ystyried o fewn cyd-destun cyffredinol y cod.

Fel rhan o'm tystiolaeth, soniais am waith y Grŵp Gweithredu Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'i grwpiau arbenigol. Bydd y Grŵp Gweithredu Strategol ADY, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2016, yn ystyried y trefniadau gweithredu, pontio a, maes o law, y trefniadau monitro ar gyfer y rhaglen trawsnewid ADY, gan gynnwys y dyletswyddau statudol a gyflwynir o dan y Bil. Bydd hefyd yn gweithredu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fel cyswllt rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i nodi dulliau gweithredol strategol y gellir eu mabwysiadu'n genedlaethol a chytuno ar y dulliau hynny.

Mae rhaglen waith 2016-17 y Grŵp Gweithredu Strategol wedi'i rhannu'n saith thema - Cynlluniau Datblygu Unigol; trosglwyddo a phontio rhwng lleoliadau addysg, darparwyr, gwasanaethau ac i fywyd fel oedolyn; y blynyddoedd cynnar; darpariaeth ôl-16, gan gynnwys darpariaeth arbenigol; Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol; hyfforddiant ac iechyd.

Mae grwpiau arbenigol wedi cael eu sefydlu i ystyried pob un o'r themâu, o ran eu trefniadau gweithredu, pontio a monitro. Mae pob un o'r grwpiau arbenigol yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY. Bydd y grŵp arbenigol sy'n edrych ar y Cynlluniau Datblygu Unigol - a'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY - yn parhau i fireinio ei gyngor ar Gynlluniau Datblygu Unigol, gan gyfeirio'n benodol at faterion a godwyd yn ystod taith y Bil. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r fersiwn o'r cod a fydd yn destun ymgynghoriad, yn amodol ar daith y Bil a chael Cydsyniad Brenhinol.

O ran y canllawiau arfaethedig ar anghenion gofal iechyd, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sydd â chyfrifoldebau statudol o ran cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion gofal iechyd. Mae canllawiau penodol yn cael ei hadolygu, er mwyn egluro a chryfhau'r gofynion a'r disgwyliadau hyn. Bwriedir cyhoeddi'r canllawiau *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd* ym mis Mawrth 2017.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language